



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BORE DA!

Oeddech chi'n gwybod bod y
yn gartref i Donald Duck?
yn le anhygoel. Maent yn

O'R CYNRADD I'R

UWCHRADD —

PROFIAD ATHRO



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

FFION ELSON YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD

Mae Ffion bellach yn dysgu Cerddoriaeth a Chymraeg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd a gwelodd y Cynllun Pontio fel y cyfle perffaith i gymryd y cam nesaf yn ei gyrfa.

Un o'r prif bethau sydd wedi taro Ffion am y sector uwchradd yw'r cyfle i weithio gyda dysgwyr o bob oed.

“Yn y cynradd ry’ chi gydag un grŵp blwyddyn ar y tro am y flwyddyn gyfan. Fel athrawes uwchradd, ry’ ni’n cael 6 gwrs y dydd, felly dwi’n gweld 6 grŵp gwahanol o unigolion ac mae hynny wedi bod yn hyfryd iawn.”

“Hefyd gallu arbenigo mewn pwnc – mae Cymraeg a Cherddoriaeth yn feysydd dwi’n eu mwynhau’n fawr. Mae’n braf iawn gallu rhannu hynny gyda’r dysgwyr hefyd, a’u gweld nhw’n mwynhau ac yn ffynnu mewn gweithgareddau allgyrsiol hefyd.”

Mae Ffion hefyd yn teimlo’n gryf am allu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

“Mae’r Gymraeg yn ffactor mor enfawr. Gyda’r nod o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 rwy’n meddwl ei bod yn bwysig fel cenedl bod gennym

yr un nod. Yn enwedig mewn ysgol cyfrwng Cymraeg lle efallai nad yw mwyafrif y dysgwyr yn dod o gartref Cymraeg ei iaith, mae’n hollbwysig ein bod ni’r athrawon yn paratoi’r ffordd ac yn eu hysbrydoli.”

Byddai Ffion yn annog unrhyw un sy’n ystyried y Cynllun Pontio i wneud cais.

“Ry’ ni fel athrawon cynradd yn lwcus oherwydd rydyn ni’n gwybod y continwmm yn barod, ac yn gwybod lle mae disgwyl i’r plant fod, felly gallwn ni barhau â’r cynnydd. Mae’n braf iawn gallu cychwyn y daith a gorffen y daith gyda’r dysgwyr hefyd.”

“Byddwn yn argymhell y Cynllun Pontio yn fawr, er ei fod yn her, mae’n werth chweil. Gyda’r mentoriaid a’r gefnogaeth gywir, mae unrhyw beth yn bosibl.”